# CANON YN D

*Johann Pachelbel arr Owain Gethin Davies*

### YNGLŶN Â'R GÂN HON

**Daw'r darn gwreiddiol yma o'r cyfnod Baróc. Mae'n ddarn offerynnol enwog, dyma drefniant lleisiol o'r darn mewn arddull Swingle.**

### THEMÂU/TESTUNAU

Cerddoriaeth Baróc/arddull Swingle

### CYSYLLTIADAU ALLWEDDOL CWRICWLWM

Y Dyniaethau
Y Celfyddydau Mynegiannol

### YSTYRIAETHAU SY'N BENODOL I'R DISBYBLAETH

**Cwmpas Lleisiol**
8ed




**Ffurf Lleisiol**
Rhannau Annibynnol

**Elfennau Cerddorol**
Gwead a thraw

**Nodweddion Cerddorol**
Gweadau lleisiol gwahanol, haenau a pedwar rhan harmoni.

### Ymarferion Cynhesu

- Dylyfwch eich gên – mae hyn yn codi'r daflod feddal ac yn ymlacio cyhyrau'r gwddf o amgylch y laryncs. Dychmygwch eich bod yn yfed eich hoff ddiod, ac wrth i chi ei dywallt i'ch ceg, teimlwch gyhyrau eich gwddf yn ehangu.
- Gofynnwch i'r dysgwyr sefyll yn gytbwys ar un goes gan gylchdroi'r goes arall, yn cychwyn gyda'r pigyrnau, yna'r penliniau ac yn olaf y cluniau. Dylent wneud hyn i gyfeiriad y cloc ac yna i'r gwrthwyneb, cyn cyfnewid coesau ac ailadrodd yr ymarferiad.
- Gofynwch i'r dysgwyr 'Humian' fel seiren, gan symud i fyny ac i lawr mewn traw, gan ddilyn eich arwyddion llaw o uchel yn yr awyr i isel iawn wrth eich pengliniau.
- Dangoswch rhythm nodweddiadol y gân:




### Awgrymiadau o gysyltiadau allweddol i'r Meysydd eraill, themâu trawgwricwlaidd a/neu chyd-destynau lleol, cenedlaethol a rhyngwladol:

- Ysgrifennwyd y Canon yn D gwreiddiol yn y Cyfnod Baróc.
- Ymchwiliwch i gyfansoddwyr eraill o'r cyfnod hwn – beth oedd offerynnau poblogaidd yr amser? Beth oedd y prif nodweddion cerddorol a ddefnyddiwyd i wneud cerddoriaeth Barque mor adnabyddus?
- Cymharwch y Canon gwreiddiol yn D â'r fersiwn arddull 'Swingle' hwn. Beth yw Steil 'swingle'? Beth yw'r prif nodweddion?
- Pa debygrwydd sydd yna? Pa wahaniaethau sydd?
- Pa un sydd orau gennych, a pham?

**GRADDFA: HERIOL**

© CanSing Cymru 2022

# CANON YN D

*Johann Pachelbel arr Owain Gethin Davies*

## Addysgu a Dysgu

1 Chwaraewch y recordiad neu ganu'r alaw gyntaf sydd yn cael ei gyflwyno yn Rhan 1 (bar 9–16 ). Wrth wrando, dylai dysgwyr ganolbwyntio ar draw yr alaw sydd yn disgyn ac esgyn fesul cam a bod y nodau i gyd werth pedwar curiad (hanner brif).
2 Pan fydd dysgwyr yn gyfarwydd â'r alaw annogwch nhw i ganu Rhan 1 yn unsain ac i ailadrodd yr alaw bedair gwaith. Gwnewch yn siŵr bod dy ysgwyr yn dilyn y rhan yn gywir ac yn canolbwyntio ar ddatblygu'r linnell legato (llyfn).
3 Pan fydd dysgwyr yn gyfarwydd gyda'r alaw gyntaf ewch i'r dechrau a rhannwch y dysgwyr yn ddau grŵp (Grŵp Porffor a Grŵp Oren).
4 Cyflwynwch yr alaw a glywir yn Rhan 2 (bar 17–24), cyfeiriwch fod y nodau hanner gwerth (minim) y nodau a ganwyd yn Rhan 1.
5 Yn dilyn hyn, dylai'r Grŵp Porffor ddechrau â Rhan 1 drwy ailadrodd yr alaw bedair gwaith tra bod y Grŵp Oren ymuno â Rhan 2 (ar ôl gwrando ar y Grŵp Porffor yn perfformio eu dilyniant unwaith) ac ailadrodd dair gwaith. Byddwch yn barod i roi digon o gefnogaeth i'r Grŵp Oren.
6 Pan fyddant yn gallu canu'n hyderus yn ddeulais, rhannwch y grŵp yn dri (Grŵp Porffor, Oren a Gwyrdd).
7 Cyflwynwch Rhan 3 i'r Grŵp Gwyrdd (bar 25–32), cyfeirwch bod y rhan yma yr un rhythm a rhan 1 ond bod traw y nodau 5 nodyn yn uwch (6ed).
8 Perfformiwch y darn o'r dechrau i adeiladu hyder y dysgwyr, bydd y Grŵp Gwyrdd angen ymuno gyda Rhan 3 (ar ôl gwrando ar y Grŵp Oren yn perfformio eu dilyniant unwaith) ac angen ailadrodd y patrwm ddwy waith. Byddwch yn barod i roi digon o gefnogaeth i'r Grŵp Gwyrdd.
9 Newidiwch y grwpiau drosodd a rhoi cyfle i bawb ganu pob rhan a perfformio o'r dechrau.
10 Oherwydd natur ailadroddus y darn, bydd angen i ddysgwyr wrando'n ofalus iawn a canolbwyntio ar ansawdd a llyfnder y sain.

## Sgiliau Cyfannol

- Cyflwynwch yr adrannau sy'n dilyn i bawb – Adran B, C a D. Mae Adran C – Rhan 1 a 3 yn ailadrodd yn union yr un rhythm a thraw a cyflwynwyd yn Adran A, ond mae Rhan 2 yn cyflwyno alaw newydd sy'n llawer mwy heriol. Mae yna hefyd rhan pellach (Rhan 4) sy'n ymddangos yn unig yn Adran C – cyflwynwch y rhan yma i unigolion fel unawd a rhoi cyfle iddynt fyrfyfyrio eu rhan lleisiol unigryw eu hunain.

- Mae'r gân yn cynnwys rhan bît bocsio, mae hwn yn cael ei ychwanegu yn Adran B a C. Wrth ymarfer gyda'r recordiad, rhowch gyfle i bob dysgwr ddysgu'r rhan bît bocsio. Efallai y byddwch yn ffeindio y Tiwtorialau fideo sydd ar gael ar y wefan yn ddefnyddiol i'ch cynorthwyo.

- Pan fydd yr holl ddysgwyr yn hyderus gyda'u rhan, perfformiwch y darn o'r cychwyn gyda'r trac cyfeiliant neu yn ddi gyfeiliant. Pan ceir sawl rhan yn cael ei ganu ar draws ei gilydd, gall hyn arwain at ansawdd tonyddiaeth gwael, rhowch ddigon o gymorth a chyfleoedd lleisiol i ddysgwyr ail ymweld a'r rhannau yn ystod y broses addysgu.

**GRADDFA: HERIOL**

© CanSing Cymru 2022

# CANON YN D

*Johann Pachelbel arr Owain Gethin Davies*

Cân Sing

## Datganiadau o'r hyn sy'n bwysig:

*•Mae archwilio'r celfyddydau mynegiannol yn hanfodol er mwyn dyfnhau sgiliau a gwybodaeth gelfyddydol, ac mae'n galluogi dysgwyr i ddod yn unigolion chwilfydig a chreadigol•*
*•Mae creu yn cyfuno sgiliau a gwybodaeth gan dynnu ar y synhwyrau, ysbrydoliaeth a'r dychymyg•*

- Annogwch y dysgwyr i fyrfyfyrio eu halawon eu hunain a synau gan ddefnyddio'r llais neu offerynnau'r ystafell ddosbarth, gan ddechrau gyda tri nodyn y raddfa D Fwyaf (DEF#). Gellir cynyddu nifer y nodau pan fydd y dysgwyr yn fwy hyderus. Gallai'r raddfa D Fwyaf llawn gael ei ddefnyddio fel gweithgaredd estynedig.

- Mae recordiad o'r gân wedi ei rhyddhau yn 1962 'Canon in D (Swingle Style)' gan The Singers Swingle. Gwrandewch a gwerthuswch y recordiad a trafod y prif nodweddion. Gallai dysgwyr hefyd gymharu'r recordiad gyda perfformiad eu hunain o'r gân, efallai y byddwch hefyd yn ystyried gwrando ar y fersiwn offerynnol gwreiddiol o'r cyfnod Baróc.

- Gofynnwch i'r dysgwyr berfformi'r alawon ar offeryn, ac i nodi'r symudiadau cam a naid. Ceisiwch berfformio gyda hanner grŵp yn canu a'r hanner arall yn chwarae offerynnau, ac yna newid.

## Asesu ar gyfer Dysgu:

*•Mae ymateb a myfyrio, fel artist, ac fel cynulleidfa, yn rhan hanfodol o ddysgu yn y celfyddydau mynegiannol•*

### Holi

**Adnodd: Gosod rheolau sylfaenol**

- Pa ran ydych yn mwynhau canu fwyaf ? Pam?
- Pa rhannau sydd yn debyg?
- Pa ran yw'r anoddaf i ganu? Pam?

### Adborth

**Adnodd: Adborth ar unwaith**
Rhowch adborth ar unwaith i'r dysgwyr yn ystod y broses addysgu a dysgu. Gallai adborth fod ar eu gallu i gynnal eu rhan wrth ganu mewn rhannau. Yn dilyn y broses ddysgu, rhowch adborth ar eu gallu i ymateb i'ch cyfarwyddiadau llaw wrth newid lefelau dynameg.

### Hunanesesiad / Asesiad gan gyfoedion

**Adnodd: Partneriaid siarad**
Mae dysgwyr yn rhannu gyda phartner dri peth newydd y maent wedi'i ddysgu:

- Beth oedd yn hawdd neu'n anodd,
- Beth sydd angen iddynt wella.

© CanSing Cymru 2022

**GRADDFA: HERIOL**